**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Rwystro Plant rhag cael eu Cam-drin yn Rhywiol**

**Cofnodion:**

**Cyfarfod cyntaf - 9 Tachwedd 2016**

**Rhan 1: Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Cafodd Jayne Bryant AC ei hethol yn ffurfiol yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol.

Cytunwyd ar NSPCC Cymru, Stop it Now! Cymru a Survivors Trust Cymru fel ysgrifenyddiaeth ar y cyd ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol.

**Rhan 2: Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol**

Rhoddodd **Jayne Bryant AC** (Cadeirydd) gyflwyniad byr ar ddiben y Grŵp Trawsbleidiol: rhwystro plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol, a thynnodd sylw pobl at waith celf a gynlluniwyd gan artist lleol o Gasnewydd gyda neges gudd. Roedd byrddau ar gael ar gyfer lluniau ar ôl y cyfarfod.

**Cyflwyniad NSPCC Cymru: Trosolwg o gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru.**

Rhoddodd **Cecile Gwilym (Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, NSPCC)** gyflwyniad pellach ar ddiben y Grŵp Trawsbleidiol - Mae'n ymwneud yn llwyr ag Arbed Dyfodol, atal cam-drin plant yn rhywiol cyn iddo ddigwydd. Rhoddodd y cyflwyniad drosolwg o'r hyn yr ydym yn ei olygu wrth gam-drin plant yn rhywiol - i ddangos y raddfa a'r hyn sydd angen ei wneud i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a beth yw nod craidd y Grŵp Trawsbleidiol (bydd hyn yn cael ei drafod yn fwy manwl gan Mike Sheath o Sefydliad Lucy Faithfull yn nes ymlaen)

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn fater cudd - anodd ei fesur. Mae gwaith ymchwil gan gomisiynydd plant Lloegr yn dangos bod y broblem yn llawer mwy nag y mae ystadegau'n awgrymu gan ei fod yn fater anodd siarad amdano. Mae llawer o rwystrau sy'n effeithio ar blant pan fyddant yn ceisio datgelu gwybodaeth (gall gymryd 7 mlynedd ar gyfartaledd i ddatgelu'n llawn)

Mae un o'r unig astudiaethau cyffredinolrwydd (NSPCC 2011) yn dangos bod cam-drin plant yn rhywiol yn digwydd ar raddfa fawr. Mae un plentyn ym mhob dosbarth wedi cael ei gam-drin (un o bob 20): problem eang iawn.

Cymru: cyd-destun yn y cyfryngau, pwyslais ar ddod â throseddwyr o flaen eu gwell - yr ydym am i leisiau goroeswyr fod yn ganolog i'r broses. Mae'r rhain yn rannau pwysig o ymagwedd gyfannol, ond mae hefyd yn bwysig adnabod yr elfen gudd - yn ymwneud â theulu neu bobl yr ymddiriedir ynddynt – cyflawnir 90% o achosion o gam-drin plant yn

rhywiol gan bobl y mae'r plentyn yn eu hadnabod, cyfran fechan iawn a gyflawnwyd gan ddieithriaid. Mae'n digwydd mewn teuluoedd a rhwydweithiau yr ymddiriedir ynddynt.

**Ruth Mullineux (Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, NSPCC):** Cyflwynodd ataliaeth fel bod wrth wraidd y dull o fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol yng Nghymru.

Astudiaeth Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod (Iechyd Cyhoeddus Cymru) - yn ddefnyddiol oherwydd ei fod yn rhoi syniad o effaith gronnus cam-drin plant yn rhywiol.

Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant sy'n cael ei rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru – dyma'r adeg iawn i edrych ar y rôl y gall rhwystro plant rhag gael eu cam-drin yn rhywiol ei chwarae, a sut y gall fod yn rhan o ddeddfwriaeth newydd.

Cost ariannol cam-drin plant yn rhywiol - £3.2 biliwn y flwyddyn i'r DU, cost ddramatig ymyrraeth hwyr £1.5 biliwn yn 2015.

Beth yw cam-drin plant yn rhywiol?

Cam-drin drwy gyffwrdd – y camdriniwr yn gwneud cyswllt corfforol â'r plentyn.

Cam-drin heb gyffwrdd – nid yw hyn yn golygu gwneud cyswllt corfforol (meithrin perthynas amhriodol, ecsbloetio, cam-drin ar-lein)

Pwy sy'n cael ei effeithio? Gall unrhyw blentyn gael ei effeithio. Mae rhai plant yn fwy agored i niwed nag eraill, ond mae pob plentyn yn agored i niwed o'r math hwn.

Sut y gallwn helpu? Gyda'n gilydd, rydym yn credu ei bod yn bosibl rhwystro plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol - rydym am gael ymagwedd fwy cyfannol ac edrych ar fynd i'r afael â phob agwedd ar gam-drin plant yn rhywiol. Rydym am ddod ag arbenigwyr, elusennau, ymchwil ac academyddion ynghyd.

*Chwaraewyd fideo'r NSPCC: What can we do about child abuse? https://www.youtube.com/watch?v=GXaC6XOUY70*

**Misty Leigh: O galon goroeswr**

Cyflwynodd Jayne Bryant AC, Misty, a oroesodd gamdriniaeth rywiol fel plentyn ac sydd bellach yn ymgyrchu dros newid, ac yn gweithio gyda Stop it Now! Cymru. Darllenodd Misty gerdd a ysgrifennodd am ei phrofiad, a elwir yn "Groomed".

Diolchodd Jayne i Misty am siarad a chyflwynodd Mike Sheath o Sefydliad Lucy Faithfull

**Ymagwedd ataliol tuag at gam-drin plant yn rhywiol: cyflwyniad Sefydliad Lucy Faithfull.**

**Mike Sheath, Rheolwr Gwasanaethau Oedolion:** Mae pob dull presennol yn adweithiol, felly yn y bôn, mae'r system bresennol yn dibynnu ar aros i'r dioddefwr ddod ymlaen ac yna byddwn yn ymateb.

Siaradodd am drawma plant, teimladau o euogrwydd a chyfrifoldeb - triniaeth emosiynol. Yn aml nid oes gan blant yr iaith, y deallusrwydd na'r gallu i ddatgelu i oedolyn cyfrifol felly nid yw'r rhan fwyaf o blant yn datgelu o gwbl – aeth â ni'n ôl at y cyfeiriad ei bod yn cymryd saith mlynedd i rai pobl ddatgelu.

25 mlynedd yn ôl nid oedd pobl yn gwybod beth yr oeddech yn ei olygu pan fyddech yn trafod meithrin perthynas amhriodol, ond mae'r rhan fwyaf o bobl bellach yn deall – mae hyn yn dangos gwelliannau mewn addysg. Mae meithrin perthynas amhriodol yn rhoi heriau o ran datgelu – mae'r person sy'n ceisio meithrin perthynas amhriodol â'r plentyn yn garedig wrth y plentyn, yn gariadus, ac yn gyfeillgar – mae swyno'n fwy cyffredin na thrais, ac mae wedyn yn arwain at driniaeth emosiynol – caiff y plant eu gwneud i gydymffurfio ag ewyllys y camdrinwyr a gwneir i blant deimlo mai eu bai hwy yw'r gamdriniaeth. Dywed y rhai sy'n ceisio meithrin perthynas amhriodol wrth y plentyn ei fod yn ymwneud â chariad, eu bod yn mwynhau, bod y plentyn yn ddeniadol ac wedi creu'r sefyllfa eu hunain. Mae plant yn aml yn derbyn y syniadau ffug hyn ac yn eu credu. Diben hyn yw atal datgelu – mae pobl sy'n meithrin perthynas amhriodol yn gorfodi plant i dderbyn eu barn hwy fod hyn yn ymddygiad iawn neu mai eu bai hwy ydyw mewn rhyw ffordd.

I bwy ydych chi'n datgelu? Os mai rhywun yn y tŷ ydyw, sut mae plant yn dod o hyd i'r cyfle neu'r geiriau er enghraifft, i ddweud wrth frawd neu chwaer os yw'r troseddwr yn byw yn y tŷ.

Mae llawer o droseddwyr mewn sefyllfa o rym, ac nid yw plant yn unigolion grymus - nid yw plant yn datgelu am bobl y mae ganddynt barchedig ofn tuag atynt / y maent yn ddibynnol arnynt.

Fel cymdeithas, rydym yn aros i'r plentyn - a all fod yn ddi-rym - ddatgelu. Nid yw plant yn dystion da – dyna'r rheswm dros fethiant llawer o dreialon troseddol. Gall rhoi plentyn o flaen bargyfreithiwr fod mor drawmatig â'r cam-drin gwreiddiol - nid yw'r plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei gredu ac mae'n teimlo fel ei fod wedi cael ei gam-drin gan y system. Weithiau, nid yw'r system bresennol yn eu helpu yn y ffordd y dylai - mae angen i ni newid hyn

Dyma'r **AGENDA ADWEITHIOL** - mae'n dibynnu ar blant sydd eisoes wedi cael eu cam-drin yn rhywiol i weithredu.

**Model Iechyd y Cyhoedd -** mae'n awgrymu ei bod yn broblem iechyd y cyhoedd (fel malaria ac ati) ac mae'n rhaid i ni ymdrin â hi / gwneud yr hyn a allwn i'w hosgoi (malaria, mae'n rhaid draenio corsydd, rhoi meddyginiaeth i bobl ymdrin â'r salwch - rhaid ei drin)

Mae'n rhaid inni felly ymdrin â'r troseddwyr - nid yw'n achos anobeithiol, mae llawer o unigolion yn newid o ganlyniad i driniaeth

Mae'n rhaid inni ymdrin â sefyllfaoedd - ysgolion, cartrefi gofal ac ati – mae'n rhaid inni feddwl am yr elfennau penodol o gamdriniaeth yn y sefyllfaoedd hynny a sut y gellir ei atal.

Mae'n rhaid inni hefyd roi cefnogaeth i oroeswyr.

Mae ymagwedd Iechyd y Cyhoedd yn cynnwys tair haen o ataliaeth:

Ataliaeth sylfaenol - Neges i bawb p'un a ydynt yn credu fod ei hangen arnynt ai peidio. Mae angen eu gwneud yn ymwybodol o beth yw cam-drin plant yn rhywiol, eu cynnwys wrth feddwl am bethau sydd fel arfer y tu hwnt i amgyffred. Weithiau mae angen bod yn gyhoeddus neu'n eglur ynghylch natur y broblem yn eich ardal.

Ataliaeth eilaidd - Adnabod patrymau a risgiau sy'n ailddigwydd – e.e. adnabod cymunedau lle y gallai fod yn fwy cyffredin. Yna rhoi'r adnoddau iddynt atal y broblem rhag gwaethygu.

Ataliaeth drydyddol - Ar hyn o bryd dyma'r ydym yn ei wneud fwyaf. Ar ôl y digwyddiad rydym yn gweithredu.

Beth yw menter ataliaeth sylfaenol?? Mae angen addysgu nyrsys ysgol ac ati a'r holl bobl mewn swyddi gofal am gam-drin plant yn rhywiol. Mae angen siarad â phobl mewn canolfannau chwaraeon ac ati i'w gwneud yn ymwybodol o sut y mae'n edrych.

Mae toreth o syniadau drwg am rywioldeb plant - pornograffi ac ati. Mae angen addysgu plant am eu hawliau, eu cyrff

Darparu sesiynau diogelwch ar y rhyngrwyd yn seiliedig ar ymchwil - rhoi'r gorau i siarad am beryglon dieithriaid a dechrau siarad am beryglon cyfarwydd. Rydym yn gwybod beth mae POBL SY'N CEISIO MEITHRIN PERTHYNAS AMHRIODOL AR LEIN yn ei wneud - rydym wedi trafod gyda hwy, felly mae angen inni ddefnyddio'r wybodaeth hon i symud ymlaen a mynd i'r afael â materion byd-eang.

Mae Stop it now yn llinell gymorth fel Childline – mae angen rhoi cyfle i bobl sy'n teimlo mewn perygl / gweld eraill mewn perygl siarad â rhywun.

Mae angen inni dderbyn bod rhai plant yn arddangos ymddygiad rhywiol amhriodol / sy'n peri pryder ac mae angen darparu adnoddau i osgoi hyn.

Mae angen helpu plant sydd wedi cael eu cam-drin - cymorth i dystion, cymorth ar gyfer treial ac ati. Waeth beth yw'r canlyniad, mae angen iddynt gael cymorth ar ôl hynny. Mae arnynt angen diogelwch drwy CAMHS ac ati ac unrhyw adnoddau eraill sydd ar gael. Mae angen ymgysylltu â hwy a darparu gwasanaethau sydd ar gael ac wedi bod ar gael ers amser hir ar eu cyfer.

Mae angen mwy o ymyrraeth - â throseddwyr a gyda dioddefwyr. Mae'n rhaid dod o hyd i'r plant sydd wedi cael eu cam-drin ac ymgysylltu â hwy i'w hatal rhag cael eu cam-drin eto - maent yn fwy agored i niwed.

Mae'r papurau yn y pecynnau a roddwyd ichi yn nodi strategaeth ataliol. Gall ddarparu sylfaen ar gyfer ystod eang o weithgareddau

Ein prif bwyntiau ffocws yw bod angen i ni roi mwy o gymorth i unigolion sy'n pryderu am eu teimladau eu hunain tuag at blant – eu gwneud yn ymwybodol o ble y gallant fynd i drafod hyn. Hefyd, rhoi llwybr i bobl sy'n darganfod bod hyn yn digwydd i ffrind / aelod o'r teulu ac ati, fynd i'r afael â'r mater. Mae angen i asiantaethau unigol feddwl pa wasanaethau y maent yn eu cynnig sy'n DARPARU pob un o'r pwyntiau uchod – a ydynt yn gweithio? A ydynt yn dda? A ydynt yn gynhwysfawr? A yw pobl yn gwybod eu bod yn bodoli / lle maent yn bodoli? A oes gwasanaethau ar gyfer troseddwyr yn ogystal â dioddefwyr?

**Gadawodd Jayne Bryant AC y cyfarfod wrth i gloch y Cyfarfod Llawn ganu, felly cadeiriodd Ruth Mullineux y cyfarfod dros dro.**

**Ruth Mullineux:** Rydym wedi cyflawni llawer yn y cyfarfod cyntaf, mae Mike wedi egluro inni sut y byddai dull ataliol yn edrych. Diolch i Misty – roedd pawb yn llawn tosturi wrth wrando ar y darlleniad. Byddaf ar gael i drafod ar ddiwedd y cyfarfod – y grŵp llywio yw'r NSPCC, Stop it Now! a'r Survivors Trust. Cofiwch gysylltu â Jayne ac unrhyw un ohonom gyda syniadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Byddwn yn cyfarfod bob tymor, a chynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth 7 Chwefror am 12:30 pm

Diolch i chi am ddod.

Cyflwynwyd blodau i Misty Leigh, y bardd ac un a oroesodd, i ddangos ein diolch